



Cambrian Buildings
Mount Stuart Square
Cardiff CF10 5FL

Adeiladau Cambrian
Sgwar Mount Stuart
Caerdydd CF10 5FL

6 Chwefror 2013

Annwyl

Cynlluniau Ad-drefnu'r GIG a phobl hŷn

Fel y gwyddoch, o ganlyniad i sylwadau helaeth gan bobl hŷn ar y newidiadau sydd i'w gwneud i wasanaethau'r GIG yng Nghymru, ysgrifennais atoch ar 25 Medi 2012 yn amlinellu fy nisgwyliadau, fel Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru, ynghylch sut mae a sut fydd gofal iechyd yng Nghymru'n cael ei ad-drefnu. Mae gennyf ddiddordeb arbennig mewn tri pheth penodol:

1. faint y mae'r Byrddau Iechyd Lleol yn cynnwys pobl hŷn yn y trafodaethau ar y penderfyniadau sy'n cael eu gwneud, ac yn cymryd eu barn o ddifrif;
2. a ydynt yn rhoi sylw priodol i effaith y newidiadau ar bobl hŷn, gan sicrhau bod unrhyw wasanaeth newydd yn briodol ac effeithiol ac yn cael ei ddefnyddio gan y bobl hŷn y mae'r newidiadau'n effeithio arnynt; ac
3. a ydynt yn sicrhau na fydd y newidiadau'n effeithio mwy ar bobl hŷn nag eraill.

Cefais ymateb i fy llythyr dyddiedig 25 Medi gan amryw o'r Byrddau Iechyd, a bu'r rhain yn ddefnyddiol iawn i mi. Ar ôl ystyried yr ymatebion hyn yn fanwl, rwyf wedi dod i'r casgliad y byddai'r Byrddau Iechyd yn elwa'n fawr o ganllawiau ymarfer gorau sy'n adeiladu ar ganllawiau Llywodraeth Cymru ar ymgysylltu ac ymgynghori ar y newidiadau i wasanaethau iechyd, ac sy'n cynnwys canllawiau ar y gofyniad cyfreithiol



i gyflawni asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb ac i wneud asesiad o'r effaith ehangach. Mae'r canllawiau'n adlewyrchu'r sefyllfa bresennol o ran polisi, cyfraith a chyfraith achosion, gweler Atodiadau 1 a 2.

Mae'r canllawiau hyn yn rhai ffurfiol a gyflwynir i'r Byrddau Iechyd Lleol o dan a.12 Deddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006. Maent yn nodi'r safonau a ddefnyddiaf i asesu beth y mae'r Byrddau Iechyd Lleol yn ei wneud yng nghyswllt yr ad-drefnu, a rhaid i'r Byrddau ystyried y canllawiau hyn wrth gyflawni eu swyddogaethau.

Rwyf hefyd yn achub ar y cyfle hwn i ofyn am fwy o dystiolaeth gennych i fy sicrhau bod buddiannau pobl hŷn yng Nghymru'n cael eu diogelu a'u gwarchod yn ddigonol gan eich Bwrdd Iechyd dros y cyfnod hwn o newid o fewn y GIG. Mae rhestr o'r dystiolaeth ddogfennol sydd angen ei chyflwyno yn Atodiad 2 a dylid ei hanfon ataf erbyn dydd Gwener 8 Mawrth 2013 fan bellaf.

Rwyf yn cydnabod y sialensau sy'n wynebu'r Byrddau Iechyd a'u dymuniad i ddarparu gofal gwell. Fy mwriad yw bod o gymorth i'r Byrddau fel y medrant weithio mewn ffordd sy'n rhoi hyder i bobl hŷn fod eu buddiannau wedi cael sylw meddylgar, wedi cael eu hystyried ac wedi cael effaith ar y penderfyniadau a wneir.

Os oes gennych unrhyw gwestiwn, ffoniwch Anna Buchanan ar 08442 640670.

Yn gywir



Sarah Rochira
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Cyflwynir y llythyr hwn o dan a.3 Deddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006.

Atodiad 1

Canllawiau a gyhoeddwyd dan adran 12 Deddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006

Chwefror 2013

Canllawiau ar ymarfer gorau wrth ymgysylltu ac ymgynghori â phobl hŷn ynghylch newidiadau i'r gwasanaethau iechyd yng Nghymru

Pwrpas y canllawiau hyn yw ategu canllawiau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ar ymgysylltu ac ymgynghori ynghylch newidiadau i'r gwasanaethau iechyd yng Nghymru ac mae'r canllawiau hyn ar gael [yma](#).

Rhaid i Fyrddau Iechyd Lleol ystyried y canllawiau hyn wrth gyflawni eu swyddogaethau. Bydd y Comisiynydd yn defnyddio'r canllawiau hyn fel safon ar gyfer asesu i ba raddau y mae Byrddau Iechyd Lleol yn diogelu ac yn hyrwyddo buddiannau pobl hŷn yng Nghymru.

Y Cyd-destun Cyfreithiol

- **Byrddau Iechyd Lleol**

Dan adran 242 Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol mae'n ddyletswydd ar Fyrddau Iechyd Lleol yng Nghymru i ymgynghori a chynnwys defnyddwyr a gofalwyr wrth gynllunio a darparu gwasanaethau, yn ogystal ag wrth ddatblygu ac ystyried cynigion i ad-drefnu gwasanaethau o'r fath.

Mae Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011 yn mynnu bod BILI yn asesu effaith debygol eu polisiau a'u harferion arfaethedig (yn ogystal â pholisiau sy'n bodoli eisoes pan fyddant yn cael eu hadolygu) ar eu gallu i gydymffurfio â'r ddyletswydd cydraddoldeb gyffredinol. Disgwylir i BILI gyhoeddi adroddiadau ar asesiadau effaith sy'n dangos effaith sylweddol (neu effaith debygol) a

monitro effaith polisiâu ac arferion o ran eu gallu i fodloni'r ddyletswydd cydraddoldeb gyffredinol dan a. 149 Deddf Cydraddoldeb 2010, sef:

- (a) dileu gwahaniaethu, aflonyddu ac erlid anghyfreithlon;
- (b) hybu cyfle cyfartal rhwng grwpiau gwahanol a;
- (c) meithrin perthynas dda rhwng grwpiau gwahanol.

- **Cynghorau Iechyd Cymuned**

Dan Reoliadau Cynghorau Iechyd Cymuned (Cyfansoddiad, Aelodaeth a Gweithdrefnau) (Cymru) 2010, mae gan CIC rôl benodol i'w chwarae yng nghyswllt prosesau cynllunio ac ymgynghori a gallant gyfeirio cynigion sydd ddim, yn eu barn nhw, er budd y gwasanaeth iechyd yn ardal y BILI, at y Gweinidog Iechyd er mwyn cael penderfyniad terfynol ynghylch y mater.

- **Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru**

Mae Deddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006 yn rhoi'r pŵer i'r Comisiynydd hyrwyddo a diogelu buddiannau pobl hŷn, herio gwahaniaethu ar sail oed, hybu ymarfer gorau wrth drin pobl hŷn ac adolygu'r gyfraith yng nghyswllt sut mae'n effeithio ar bobl hŷn. Gall y Comisiynydd ddal cyrff cyhoeddus yn atebol drwy adolygu eu gweithredoedd neu ymchwilio i gwynion a wnaed amdanynt. Gall hefyd gyhoeddi canllawiau ar ymarfer gorau a chyflwyno adroddiadau i Brif Weinidog Cymru.

Ymgysylltu â phobl hŷn yng Nghymru

'Ymgysylltu'

Sicrhau bod pobl hŷn, eu gofalwyr, a mudiadau statudol a gwirfoddol sy'n cynrychioli eu buddiannau, yn cael eu cynnwys yn barhaus drwy drafod neu ymgynghori â nhw'n anffurfiol.

Mae ymgysylltu yn broses ddwy ffordd sy'n galw am wrando gweithredol. Dylai fod yn ystyrlon a dylai'r BILI gael ei weld yn rhyngweithio â phobl hŷn, drwy eu hannog i gymryd rhan, mabwysiadu ymagwedd gynhwysol a dangos parodrwydd i newid yn sgil yr hyn a ddysgir drwy ymgysylltu.

Ymgysylltu ymarferol:

- Dylai BILI ymgysylltu ag ystod eang o bobl hŷn a gofalwyr yn barhaus - mae modd gwneud hyn drwy gyfrwng mudiadau sy'n eu cynrychioli, ond dylai BILI hefyd ganfod ffyrdd i ymgysylltu ag unigolion sydd ddim yn mynychu'r grwpiau mwyaf amlwg ar yr olwg gyntaf. Dylai BILI ystyried lle mae pobl hŷn a lle maent yn mynd yn ystod eu bywyd bob dydd - sef, yn y bôn, yr un manau â phawb arall. Ni ddylid eu hystyried yn grŵp ar wahân i weddill y gymuned.
- Dylai BILI sylweddoli bod llawer o bobl hŷn a gofalwyr yn gweithio a bod ganddynt gyfrifoldebau gofalu sylweddol. Mae cyfyngiadau ar eu hamser yn yr un modd ag y mae cyfyngiadau ar amser pobl iau.
- Dylai BILI hefyd ystyried y gofalwyr a'r bobl hŷn hynny sydd ddim mor weladwy mewn bywyd bob dydd; mae'n bwysig nad ydynt yn cael eu heithrio o'r broses ymgysylltu. Dylai BILI gynnwys y rheiny sy'n anabl, sy'n wynebu rhwystrau iaith, a allai fod yn byw mewn diwylliant cymharol gaeedig am ba bynnag reswm neu sydd mewn ysbyty neu gartref gofal.

- Dylai BILI ddefnyddio amryw o wahanol ddulliau o ymgysylltu – er enghraifft, cynullïadau cyhoeddus, cyfarfodydd wyneb yn wyneb, gohebu drwy lythyr neu dros e-bost, sgysiau ffôn, cyfryngwyr neu eiriolwyr lle bo angen. Dylai lleoliadau a gwybodaeth fod yn hygyrch.
- Dylai gwahoddiadau i ymgysylltu fod yn agored a chreu perthynas barhaus â phobl hŷn a gofalwyr yn y gymuned yn hytrach na'u bod yn ymwneud ag un prosiect ar ei ben ei hun. Os bydd rhywun hŷn yn nodi rhwystr i ymgysylltu, dylai BILI wneud ymdrechion gwirioneddol i chwalu'r rhwystr hwnnw.
- Dylai ymgysylltu ddigwydd ar adeg pan fydd pobl hŷn a gofalwyr yn cael cyfle gwirioneddol i gyfrannu eu syniadau a dylanwadu ar lunwyr penderfyniadau.
- Dylai BILI ddweud wrth bobl hŷn a gofalwyr sut mae eu syniadau a'u barn wedi helpu i siapiau'r cynigion ar gyfer ymgynghori.
- Dylai BILI ystyried yn arbennig Egwyddor 7 Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn, sy'n nodi y dylai pobl hŷn barhau i fod yn rhan integredig o gymdeithas a chymryd rhan weithgar yn y gwaith o ffurfio a gweithredu polisiau sy'n cael effaith uniongyrchol ar eu lles.

Ymgynghori â phobl hŷn yng Nghymru

'Ymgynghori'

Proses fwy ffurfiol ond agored sydd â chanolbwynt mwy penodol y dylid ei defnyddio os oes newidiadau dadleuol neu sylweddol i bolisiâu neu arferion sy'n effeithio ar bobl hŷn yn cael eu hystyried.

Mae ymgynghori yn broses ddwy ffordd sy'n galluogi pobl hŷn i gyfrannu at y broses o ddatblygu polisiâu a gwasanaethau, a fydd yn arwain at bolisiâu a gweithdrefnau mwy cadarn a realistig sy'n adlewyrchu anghenion y gymuned ac unigolion yn well. Dylai'r BILI ddangos ymrwymiad i fod yn agored ac yn atebol ynghyd â pharodrwydd i newid yn sgil yr hyn a ddysgir drwy ymgynghori.

- Rhaid i BILI ymgynghori ar adeg pan mae cynigion yn parhau i fod ar y cam llunio.
- Dylai BILI sicrhau bod ystod mor eang â phosibl o bobl hŷn a gofalwyr yn gwybod bod cyfnod o ymgynghori am gael ei gynnal.
- Dylai BILI sicrhau bod dogfennau ymgynghoriad ar gael i'r ystod ehangaf posibl o bobl hŷn a gofalwyr. Dylent roi digon o wybodaeth am unrhyw gynnig er mwyn i bobl ddeall yr hyn sy'n cael ei gynnig a'r rhesymau y tu ôl iddo. Dylid defnyddio iaith glir a chyflwyno'r ddogfen mewn ffordd resymegol.
- Dylid ategu unrhyw ddatganiad o ffeithiau a wneir gan y BILI yn y ddogfen ymgynghori â thystiolaeth a dylai'r dystiolaeth honno fod ar gael i bobl hŷn a gofalwyr.
- Dylai BILI sicrhau bod y cwestiynau a gaiff eu gofyn mewn dogfennau ymgynghori yn gwestiynau agored – ac nid yn gwestiynau arweiniol - gyda sail gadarn iddynt yn y ddogfen ymgynghori ac unrhyw dystiolaeth ategol. Ni ddylai holiaduron gyfyngu'n ormodol ar allu'r person hŷn i roi ateb ystyrlon i'r cwestiynau a ofynnir, er enghraifft, drwy gyfyngu'r atebion i 'ia' neu 'na' yn unig.

- Dylai'r BILI roi digon o amser i bobl hŷn a gofalwyr ystyried yr wybodaeth ac ymateb.
- Dylid rhoi ystyriaeth ddyledus i bob ymateb i'r ymgynghoriad a geir gan bobl hŷn neu ofalwyr, waeth sut y cyflwynir yr ymateb hwnnw.
- Dylai BILI ddangos i bobl hŷn a gofalwyr eu bod wedi rhoi ystyriaeth drylwyr i'r ymatebion i'r ymgynghoriad wrth lunio'r cynigion terfynol.

Rôl asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb yng nghyswllt ymgysylltu ac ymgynghori

'Asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb'

Mae asesu effaith yn broses a ddylai sicrhau nad yw polisiâu ac arferion yn gwahaniaethu'n anghyfreithlon yn erbyn grwpiau sydd wedi'u gwarchod dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, nac yn cael effaith andwyol ar grwpiau o'r fath.

Wrth asesu effaith, dylai BILI hefyd ystyried sut y gallai'r polisi neu'r arfer hybu cyfleoedd cyfartal yn well a sut y bydd yn effeithio ar y berthynas rhwng grwpiau. Mae asesu effaith yn ddyletswydd barhaus ac ni ddylid ei ystyried yn ymarfer 'rhoi tic yn y blwch'. Dylid rhoi sylw dyledus i ganlyniad yr asesiadau.

- Dylai BILI sylweddoli bod ymgysylltu ac ymgynghori llwyddiannus yn dibynnu ar asesiadau o effaith cynhwysfawr, gan gynnwys asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb.

- Dylai BILI gofio bod 'rhoi sylw dyledus' i'r ddyletswydd gydraddoldeb yn golygu bod hon yn ddyletswydd o sylwedd sydd i'w rhoi ar waith yn drylwyr ac â meddwl agored. Nid mater o 'roi tic yn y blwch' ydyw.
- Dylai BILI gadw cofnod digonol o asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb er mwyn gallu dangos eu bod wedi ystyried eu dyletswyddau cydraddoldeb mewn gwirionedd ac wedi trafod cwestiynau perthnasol yn onest.
- Wrth asesu effaith, dylai BILI ystyried y ffaith y gall gwahaniaethu fod yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol. Byddai gwahaniaethu uniongyrchol yn digwydd pe bai rhywun hŷn neu ofalwr yn cael ei drin yn llai ffafriol oherwydd rhyw nodwedd warchoddedig. Byddai gwahaniaethu anuniongyrchol yn digwydd pe bai darpariaeth, maen prawf neu arfer yn rhoi unigolyn neu grŵp o bobl penodol â nodwedd warchoddedig dan anfantais o'i gymharu ag unigolyn arall neu grŵp arall o bobl.
- Dylai BILI ystyried yn arbennig Egwyddor 18 Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn, sy'n nodi y dylai pobl hŷn gael eu trin yn deg waeth be fo'u hoed, rhyw, cefndir ethnig neu hil, anabledd neu unrhyw statws arall, a'u gwerthfawrogi yn annibynnol ar eu cyfraniad economaidd i gymdeithas.

Mae rhagor o ganllawiau ar asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb ar gael o wefan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol.

Atodiad 2

Canllawiau a gyflwynir o dan a.12 Deddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006

Chwefror 2013

Canllawiau ar ymarfer gorau wrth asesu effaith y newidiadau sydd i'w gwneud gan y Byrddau Iechyd Lleol i bolisi a darparu gwasanaethau ar bobl hŷn

Diben y canllawiau hyn yw rhoi arweiniad ar asesu effaith y newidiadau i wasanaethau iechyd ar bobl hŷn yng Nghymru.

Rhaid i Fyrddau Iechyd Lleol ystyried y canllawiau hyn wrth gyflawni eu swyddogaethau. Bydd y Comisiynydd yn eu defnyddio fel safon i asesu a yw'r Byrddau Iechyd Lleol yn diogelu a hybu buddiannau pobl hŷn Cymru wrth ad-drefnu gwasanaethau'r GIG.

Beth a olygir wrth 'asesu effaith'?

- Nid yw asesu effaith yn ffenomenon newydd ac fe'i defnyddiwyd gan gyrff cyhoeddus ers blynyddoedd, er enghraifft i asesu effaith amgylcheddol neu effaith economaidd.
- Yng nghyd-destun y ddogfen hon, mae 'asesu effaith' yn golygu adnabod effaith bosibl neu wirioneddol y newidiadau arfaethedig i wasanaethau iechyd Cymru ar bobl hŷn er mwyn gallu osgoi unrhyw effeithiau anghymesur ar bobl hŷn neu, lle nad oes modd eu hosgoi, eu lliniaru.
- Dylai Byrddau Iechyd Lleol weld asesiad o effaith fel gweithgaredd parhaus sy'n ystyried, fel mater o gwrs, canlyniadau posibl a gwirioneddol unrhyw newid i bolisi a darparu gwasanaeth ar bobl hŷn.
- Dylai'r Byrddau Iechyd Lleol weld asesiad o effaith fel cyfle i feddwl drwy'r rhesymeg a'r dystiolaeth dros y newidiadau arfaethedig i wasanaethau a, lle nodir effaith andwyol neu anghymesur, ystyried a

oes unrhyw ffordd arall o gyflawni eu hamcanion neu liniaru'r effaith negyddol ar bobl hŷn.

- Dylai'r Byrddau Iechyd Lleol hefyd weld asesiad o effaith fel offeryn defnyddiol i'w helpu i ddeall effaith a chanlyniadau'r newidiadau arfaethedig yn well fel y medrant wneud y penderfyniadau gorau i'r gymuned gyda'r adnoddau ar gael.
- Mae asesiad o effaith yn elfen angenrheidiol o weinyddiaeth gyhoeddus drylwyr.
- Gellir profi effaith yn union neu'n anuniongyrchol. Gallai tynnu gwasanaeth yn ôl gael effaith uniongyrchol ar berson hŷn oherwydd nad yw'r gwasanaeth hwnnw ar gael mwyach, ond gallai hefyd gael effaith anuniongyrchol, er enghraifft os yw'r gwasanaeth ar gael yn rhywle arall ond mae'n costio mwy o arian nag y gall y person hŷn ei fforddio i deithio i ddefnyddio'r gwasanaeth.

Tystiolaeth o asesiad o effaith

- Dylai'r Byrddau Iechyd Lleol fod yn gallu darparu tystiolaeth ddogfennol yn dangos llwybr archwilio'r asesiad o effaith o'r pwynt pan gafodd y polisi newydd neu ddiwygiedig neu'r newid i'r gwasanaeth ei ystyried gyntaf i'r pwynt pan weithredir y polisi newydd neu ddiwygiedig neu'r newid i'r gwasanaeth.
- Dylai'r Byrddau Iechyd Lleol hefyd fod yn gallu darparu tystiolaeth ddogfennol yn dangos llwybr archwilio'r asesiad o effaith unwaith y gweithredir y polisi newydd neu ddiwygiedig neu'r newid i'r gwasanaeth i sicrhau y cawsant eu hasesu i adnabod unrhyw ganlyniadau anfwriadol neu annisgwyl.

Dylai'r llwybr archwilio ddangos:

- a) bod ymgysylltu ystyrion a, lle bo hynny'n briodol, ymgynghori wedi'i gyflawni gyda phobl hŷn er mwyn ennill eu persbectif ar sut mae

neu sut fydd polisi arfaethedig neu newid i wasanaeth yn effeithio arnynt;

b) bod y Bwrdd Iechyd Lleol wedi rhoi sylw dyledus i'r hyn a ddywedodd bobl hŷn am sut mae neu sut allai polisi arfaethedig neu newid i wasanaeth effeithio arnynt;

c) bod y Bwrdd Iechyd Lleol wedi rhoi sylw dyledus i asesu a ydyw ac i ba raddau y mae neu y gallai polisi arfaethedig neu newid i wasanaeth effeithio ar bobl hŷn;

ch) bod y Bwrdd Iechyd Lleol wedi rhoi sylw dyledus i asesu a ydyw ac i ba raddau y mae neu y gallai'r polisi arfaethedig neu'r newid i wasanaeth effeithio'n anghymesur ar bobl hŷn;

d) bod y Bwrdd Iechyd Lleol wedi rhoi sylw dyledus i'r camau y gellid eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu anghymesur union neu anuniongyrchol ar bobl hŷn.

- Dylai'r llwybr archwilio gynnwys cronoleg a naratif yn egluro'r dogfennau a ddarperir.

Effaith ar eraill sy'n darparu gwasanaethau

- Dylai'r Byrddau Iechyd Lleol asesu effaith eu newidiadau arfaethedig i'r gwasanaethau iechyd ar eraill sy'n darparu gwasanaethau i bobl hŷn, er enghraifft ar awdurdodau lleol neu fudiadau gwirfoddol, er enghraifft lle mae newid i wasanaeth yn golygu y bydd yn rhaid i fudiad neu gorff cyhoeddus arall gamu i mewn i ddarparu gwasanaeth i gwrdd ag anghenion oedd yn cael eu diwallu'n flaenorol gan y Bwrdd Iechyd Lleol.

Atodiad 3

Tystiolaeth ddogfennol i'w darparu erbyn 8 Mawrth 2013 fan bellaf

O ran y prosesau diweddar o ymgysylltu, ymgynghori a gwneud penderfyniadau ar y newidiadau i ddarparu gwasanaethau'r GIG yn eich ardal, a fydddech gystal ag anfon y canlynol i'r Comisiynydd Pobl Hŷn:

Ymgysylltu ac ymgynghori

1. Llwybr archwilio llawn o'ch ymgysylltu a'ch ymgynghori gyda phobl hŷn a gofalwyr. Rhaid i'r llwybr archwilio gynnwys:
 - a) **Crynodeb** o'r dyddiadau a'r manau lle cynhaliwyd y digwyddiadau ymgysylltu/ymgynghori, y nifer a fynychodd, a **chrynodeb** o'r hyn a drafodwyd a pha adborth a roddwyd i'r rhai a fynychodd yn dilyn y digwyddiad;
 - b) **Crynodeb** o sut roddwyd cyfle i bobl hŷn a gofalwyr ymgysylltu a rhoi adborth ar yr ymgynghori;
 - c) **Crynodeb** o unrhyw rwystrau i ymgysylltu ac ymgynghori y cafodd eu dwyn at sylw'r Bwrdd Iechyd Lleol gan bobl hŷn, a sut gafodd y rhwystrau hyn eu dileu.

Camau a gymerwyd mewn ymateb i adborth

2. Tystiolaeth ddogfennol o sut gafodd yr adborth a'r sylwadau gan bobl hŷn a gofalwyr eu trafod ar lefel Bwrdd a sut wnaethant ddylanwadu ar / neu newid y cynlluniau ad-drefnu, gan gynnwys, lle bo hynny'n berthnasol, papurau a chofnodion trafodaethau'r Bwrdd.

Dyletswyddau Cydraddoldeb ac Asesu Effaith

3. Tystiolaeth ddogfennol o sut mae'r Bwrdd wedi cyflawni ei ddyletswydd o dan Reoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011 i asesu effaith debygol y newidiadau arfaethedig i bolisiau ac arferion ar eu gallu i gydymffurfio â'r ddyletswydd cydraddoldeb cyffredinol.
4. Tystiolaeth ddogfennol o sut wnaeth yr asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb newid neu arwain at addasu'r cynlluniau ar gyfer:

- a) ymgysylltu ac ymgynghori;
- b) ad-drefnu'r gwasanaethau.

5. Tystiolaeth ddogfennol yn dangos y rhoddwyd sylw dyledus ar lefel Bwrdd i unrhyw effaith negyddol ar bobl gyda nodweddion a warchodir, gan gynnwys papurau a chofnodion y Bwrdd sy'n dangos y rhoddwyd sylw dyledus i gamau posibl y gellid eu cymryd i liniaru unrhyw effaith negyddol.

Asesiad o'r effaith ehangach

6. Tystiolaeth ddogfennol yn dangos y rhoddwyd sylw dyledus ar lefel Bwrdd i asesu a fydd y bwriad i ad-drefnu gwasanaethau'n effeithio mwy ar bobl hŷn nag eraill, a lle nodwyd y byddai hyn yn digwydd, papurau a chofnodion y Bwrdd yn dangos y rhoddwyd sylw dyledus i gamau posibl y gellid eu cymryd i liniaru unrhyw effaith anghymesur ar bobl hŷn.

7. Tystiolaeth ddogfennol, gan gynnwys papurau a chofnodion y Bwrdd, yn dangos y rhoddwyd sylw dyledus ar lefel Bwrdd i faint fydd y bwriad i ad-drefnu gwasanaethau'n effeithio ar gymunedau, awdurdodau lleol a'r sector gwirfoddol.

8. Tystiolaeth ddogfennol o drafodaethau gydag awdurdodau lleol a'r sector gwirfoddol ar effaith y bwriad i ad-drefnu gwasanaethau arnynt – yr effaith ariannol ac o ran darparu gwasanaeth - gan gynnwys, lle maent yn bodoli, tystiolaeth o gytundebau a wnaed i rannu adnoddau neu i gyd-ddefnyddio adnoddau.

Gwasanaethau amgen

9. Tystiolaeth ddogfennol o drafodaethau ar unrhyw gymorth amgen fydd yn cael ei roi yn ei le ar gyfer pobl hŷn a gofalwyr lle cafodd gwasanaeth ei newid neu ei dynnu'n ôl, ac sy'n dangos bod cynaliadwyedd hirdymor y gymorth hwnnw wedi cael ei ystyried a'i fod yn hyfyw.

'Tystiolaeth ddogfennol'

Mae tystiolaeth ddogfennol yn golygu cofnodion, cofnodion cyfarfodydd, e-byst, llythyrau, dogfennau ymgynghori, dogfennau ymgysylltu ac unrhyw beth arall (papur, electronig neu fel arall) a allai ddangos y rhoddwyd sylw gweithredol i'r materion a ddisgrifir uchod.

Rhaid i'r holl dystiolaeth fod wedi cael ei dyddio a'i chyflwyno mewn trefn gronolegol, gan nodi'n glir i ba faes y mae'n berthnasol (e.e. ymgysylltu, asesu effaith, ayb).

Mae'n bosibl y bydd y dystiolaeth hon ar gael i'r cyhoedd.